

MEYSYDD Y MÔR

gan Alison Jenkins

Wrth feddwl am fyd natur a bywyd gwylt, rhaid cofio am y rhan honno o'r blaned sydd yn wlyb. Mae 70% o arwyneb y blaned dan y cefnforoedd – dim ond 3% o'r dŵr ar y ddaear sydd yn groyw.

Mae'r cefnforoedd yn bwysig iawn i fywyd economaidd y Deyrnas Unedig

- cludo nwyddau mewn llongau
- cael mwynau a physgod
- teithio a hamddena
- amddiffyn y wlad
- cael gwared o wastraff a charthion

Gan fod llawer o ddiwydiant a threfi ar lan y môr, mae'n syndod ein bod yn trin y tir a'r môr ar wahân yn hytrach nag fel un amgylchedd cyfan.

Mae'n amlwg fod angen meddwl yn fwy gofalus am ein gweithgareddau ar y môr a sut maen nhw'n effeithio ar y cefnforoedd. Mae gwyddonwyr yn credu fod rhwng 5 a 10 miliwn o rywogaethau gwahanol yn byw yn y môr a dim ond tua 2 filiwn ar y tir.

Rydym mewn perygl o golli cyfoeth o fywyd trwy anghofio amdano a chamdrin moroedd y byd. Mae rhaid defnyddio'r moroedd yn fwy cynhaliol a chofio eu bod yn bwysig o ran

- rheoli hinsawdd y byd
- y cylch dŵr
- gwaith arbrofol gwyddonwyr
- cylch bywyd y blaned

Rhai o'r peryglon i'r môr y mae dynion yn gyfrifol amdany'n nhw:

1. gwastraff plastig yn cydio mewn creaduriaid neu mae adar y môr yn bwyta digon o ddarnau bychain yn lle wyau pysgod ac felly maen nhw'n marw.
2. olew o lanhau tanciau llongau yn dod ag olew i'r glannau yn gyson. Nid trychinebau tanceri ydy'r brif broblem.
3. draenio aberoedd i adeiladu arny'n nhw neu eu llygru gan afonydd budr yn bygwth cadwyni bwyd pwysig.

Mae nifer o adar y môr yn treulio'r rhan fwyaf o'u bywyd ar y môr gan ddefnyddio ynysoedd a chlogwyni'r arfordir i nythu a magu cywion.

Dau o'r adar hyn yw'r **pâl** a'r **hugan**.

Isod cewch ddau weithgaredd i'w gwneud yn y dosbarth fel gwaith dilynol i waith maes neu waith ar thema'r môr. Os na fedrwch drefnu i'r plant weld yr adar eu hunain, yna gallant gywain gwybodaeth o gyfeirlyfrau neu o wefannau priodol e.e. www.rspb.org

Gweithgaredd 1

YR HUGAN A'R PÂL

Gweithiwch mewn parau neu grwpiau bach arall.

Mae pob un o'r brawddegau hyn yn sôn am yr hugan neu am y pâl. Casglwch y rhai sydd yn disgrifio'r **hugan i golofn A** a'r rhai sydd yn disgrifio'r **pâl i golofn B**. [Os ydych chi'n gweithio ar y cyfrifiadur, defnyddiwch adnodd "torri a gludo" i symud y brawddegau.]

A. Yr hugan (Saesneg: gannet)

Dim ond ar Ynys Gwales (Grassholm) mae hwn yn nythu yng Nghymru



B. Y pâl (Saesneg: puffin)

Mae'r pâl yn nythu ar Ynys Môn, ym Mhen Llŷn ac ar ynysoedd Sir Benfro.



1. Mae ganddo adenydd 2 fetr ar draws.
2. Mae esgyrn y pen yn gryf iawn.
3. Mae'r pig yn lliwgar iawn yn ystod y tymor nythu.
4. Mae'n gallu plymio i'r môr o 50 metr.
5. Mae ganddo adenydd byr.
6. Mae ganddo sachau aer yn ei wddf i leihau'r sioc wrth daro'r dŵr.
7. Mae'n nythu mewn tyllau ar ben clogwyni.
8. Mae'r nyth wedi ei wneud o wymon a phlanhigion fel arfer.
9. Erbyn diwedd Awst mae wedi gadael ei nyth.
10. Mae'r pig yn agor yn llydan i ddal nifer o bysgod ar y tro.
11. Ei enw gwyddonol Lladin yw *Sula bassana*.
12. Ei enw gwyddonol Lladin yw *Fratercula arctica*.

Gweithgaredd 2

CYLCH MAETHIAD

Gweithiwch ar eich pen eich hun neu mewn grŵp. Cysylltwch y llun gyda'r disgrifiad cywir ohono. Ar ôl gwneud hyn, lluniwch gadwyn fwyd gyda phopeth wedi ei gysylltu i lun o'r haul.

Rydw i'n defnyddio egni'r haul a maethiad o'r dŵr i dyfu. Mae llawer o anifeiliaid yn fy mwyta. FFYTOPLANCTON ydw i.



Rydw i'n cael egni o fwyta creaduriaid llai. CIGYSYDD ydw i.




Rydw i'n cadw llawr y môr yn lân trwy fwyta planhigion ac anifeiliaid marw a gwastraff arall. DETRISYDD ydw i.



Rydw i'n cael egni o fwyta ffytplancton ac yn cael fy mwyta gan gigysyddion. SŴPLANCTON ydw i.



Rydw i'n cael egni o fwyta ffytplancton ac yn cael fy mwyta gan greaduriaid hollysol.
LLYSYDD ydw i.



Rydw in cael egni o fwyta ffytplancton a phob math o greaduriaid eraill.
HOLLYSYDD ydw i.

